Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

This document is also available in English | Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

# Gofynion Data Addysg Uwch 2026/27

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 16 Gorffennaf 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/202635 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg uwch<br>Penaethiaid sefydliadau addysg bellach sy'n cynnig darpariaeth addysg uwch<br>Penaethiaid darparwyr sy'n dychwelyd data ar ddapariaeth cyrsiau wedi'u dynodi'n benodol ar gofnod myfyrwyr HESA |
| **Ymateb erbyn:** | 27 Tachwedd 2026 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Rachael Clifford \| ystadegauAU@medr.cymru |

**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad yn hysbysu darparwyr addysg uwch am y data addysg uwch a ddefnyddir i gyfrifo dyraniadau cyllid; i fonitro Mesurau Cenedlaethol; i fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth; ar gyfer cyhoeddi; ar gyfer darpariaeth i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol; ar gyfer dadansoddiad o ansawdd data cofnodion myfyrwyr HESA; i fonitro hepgoriadau ffioedd rhan-amser a phrentisiaethau gradd; ac i lywio polisi.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

**Cyflwyniad**

1. Mae'r cyhoeddiad hwn yn hysbysu darparwyr addysg uwch (DAUwyr) am y data addysg uwch (AU) a ddefnyddir i'r dibenion canlynol:

   - cyfrifo dyraniadau cyllid;
   - monitro Mesurau Cenedlaethol;
   - monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth;
   - darparu data i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
   - cyhoeddiadau;
   - dadansoddi ansawdd data cofnodion myfyrwyr HESA;
   - monitro hepgoriadau ffioedd rhan-amser;
   - monitro prentisiaethau gradd;
   - cyhoeddi Ystadegau Swyddogol;
   - monitro darpariaeth Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) mewn Addysg Bellach (AB)
   - llywio polisi.

2. Yn y cyhoeddiad hwn, mae Sefydliadau Addysg Uwch yn cynnwys sefydliadau addysg bellach (SABau) sy'n darparu addysg uwch a sefydliadau addysg uwch (SAUau), a gyllidir gan Medr. Cynhwysir hefyd ddarparwyr sy'n tanysgrifio i HESA i ddychwelyd data ar gyrsiau a ddarperir ganddynt sydd wedi'u dynodi'n benodol, ond nad ydynt yn cael eu cyllido gan Medr am eu darpariaeth addysg uwch. Nid yw'r darparwyr hyn wedi'u cynnwys yn y data na'r dadansoddiadau sy'n gysylltiedig â chyllido, ond maent wedi'u cynnwys ym mheth o'r data a'r dadansoddiadau eraill a gyflwynir yn y cyhoeddiad hwn. Nodir y data a gynhwysir yn ôl math o ddarparydd o dan y penawdau unigol isod, gyda chrynodeb pellach yn y tabl yn Atodiad R.

3. Mae'r mapio yn yr atodiadau sy'n ymwneud â data myfyrwyr yn seiliedig ar ddata cofnodion myfyrwyr yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA) a gesglir gan Jisc ar gyfer blwyddyn casglu data 2025/26. Mae'r mapio a gyflwynwyd wedi'i brofi ar ddata a ddychwelwyd ar gofnod myfyrwyr HESA ar gyfer 2024/25 a chyflwyniadau cynnar ar gyfer 2025/26. Rydym yn croesawu unrhyw adborth sydd gan ddarparwyr ar y mapio yn yr atodiadau, naill ai yn ystod proses gyflwyno 2025/26 fel y gallwn wneud newidiadau ar unwaith i raglenni'r Gwasanaeth Rhyngwyneb Adrodd Gwybodaeth (IRIS) yn ôl yr angen, neu i gyfrannu at ein hadolygiad o'r mapio hwn yn barod ar gyfer y flwyddyn nesaf. Dylid anfon unrhyw sylwadau sydd gan ddarparwyr at ystadegauAU@medr.cymru. Mae mapiau ar gyfer echdynnu data monitro diwedd blwyddyn wedi'u cynnwys yn Atodiad K o'r Cyhoeddiad Monitro Diwedd Blwyddyn. Croesewir sylwadau ar y mapio hwnnw hefyd. Bydd unrhyw newidiadau sylweddol i'r mapio, naill ai yn y ddogfen hon neu yn y cyhoeddiad monitro diwedd blwyddyn, a wneir yn ystod y broses gyflwyno, yn cael eu rhannu â darparwyr.

4. Os ceir unrhyw broblemau mawr wrth echdynnu data yn ystod y broses gyflwyno, er enghraifft problemau gyda'r mapio, system IRIS neu broblemau gyda darparwyr unigol, sy'n golygu nad oes modd defnyddio unrhyw allbwn, neu gyfran o allbwn IRIS, mae'n bosibl y bydd data yn cael eu hailechdynnu ar ôl casglu. Os yw hyn yn debygol, byddwn yn hysbysu darparwyr.

5. Nid yw dulliau cyllido ar gyfer 2027/28 yn derfynol ar adeg cyhoeddi'r cylchlythyr hwn a gallai rhai dulliau dyrannu newid. Y dulliau cyllido a geir yn y cylchlythyr hwn yw'r dulliau ar gyfer 2026/27. Tybir, er mwyn echdynnu data, y bydd y dulliau cyllido yn aros yr un peth ar gyfer 2027/28.

**Prif newidiadau ar gyfer 2026/27 o gymharu â 2025/26**

6. Dyma'r prif newidiadau sydd wedi'u cynnwys yn y cyhoeddiad hwn o gymharu â chyhoeddiad Medr Medr/2025/14: Gofynion Data Addysg Uwch 2025/26:

- Mae Atodiad E wedi'i ddiweddaru i amlinellu'r dulliau echdynnu data sy'n gysylltiedig â chyhoeddiadau Ystadegau Swyddogol Medr.
- Mae Atodiad F wedi'i ddiweddaru i adlewyrchu newidiadau a wnaed ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar adolygu allbynnau’r dadansoddiad o ansawdd data. Mae'r atodiad yn cynnwys crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae manylion yr allbynnau wedi'u diweddaru ar gyfer 2025/26 na chawsant eu gweithredu yn IRIS 2024/25, ac unrhyw newidiadau lle bydd angen gwaith pellach wedi'u cynnwys yn Atodiad S. Rydym hefyd wedi cynnwys taflenni ychwanegol yn allbynnau'r dadansoddiad ansawdd data sy'n dangos y data myfyrwyr a ddefnyddiwyd yn y tablau.
- Mae Atodiad P newydd wedi'i gyflwyno i amlinellu'r dull echdynnu data sy'n gysylltiedig â data a ddefnyddir wrth gyfrifo cyllid lleoliadau Addysg Gychwynnol Athrawon (Statws Athro Cymwysedig).
- Mae Atodiad Q newydd wedi'i gyflwyno i amlinellu'r dull echdynnu data sy'n gysylltiedig â data a ddefnyddir i nodi myfyrwyr Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) ymhlith myfyrwyr Addysg Bellach (AB).

**Cynnwys**

7. Dyma gynnwys yr atodiadau:

| | |
|---|---|
| Atodiad A | Data a ddefnyddir wrth ddyrannu cyllid addysgu |
| Atodiad B | Data a ddefnyddir ar gyfer dyraniadau cyllid ymchwil |
| Atodiad C | Data a ddefnyddir wrth ddyrannu cyllid hyfforddiant Ymchwil Ôl-radd |
| Atodiad D | Data a ddarperir i'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol |
| Atodiad E | Data a ddefnyddir yng nghyhoeddiadau Ystadegau Swyddogol Medr |
| Atodiad F | Data a ddarperir i ddarparwyr addysg uwch yn y dadansoddiad o ansawdd data cofnodion myfyrwyr HESA |
| Atodiad G | Data a ddefnyddir ar gyfer dyrannu a monitro'r cynllun hepgor ffioedd israddedig rhan-amser |
| Atodiad H | Data a ddefnyddir i ddadansoddi incwm |
| Atodiad I | Data a ddefnyddir ar gyfer monitro mesurau cenedlaethol |
| Atodiad J | Data a ddefnyddir i fonitro ac addasu cyllid prentisiaethau gradd |
| Atodiad K | Data a ddefnyddir wrth gyfrifo Cronfa Arloesi Ymchwil Cymru |
| Atodiad L | Data a ddefnyddir wrth gyfrifo cyllid gwrth-hiliol a chyllid llesiant ac iechyd meddwl |
| Atodiad M | Data a ddefnyddir mewn dyraniadau cymorth cyflogadwyedd wedi'u targedu |
| Atodiad N | Data a ddefnyddir wrth gyfrifo cyllid cyfalaf |

| | |
|---|---|
| Atodiad O | Data a ddefnyddir wrth gyfrifo cyllid Amgylchedd a Diwylliant Ymchwil Cymru |
| Atodiad P | Data a ddefnyddir wrth gyfrifo cyllid lleoliadau Addysg Gychwynnol Athrawon (Statws Athro Cymwysedig) |
| Atodiad Q | Data a ddefnyddir i nodi myfyrwyr Tystysgrif Addysg i Raddedigion mewn Addysg Bellach |
| Atodiad R | Manylion yr allbynnau y bydd pob math o ddarparydd yn eu derbyn drwy IRIS a'r gofynion cymeradwyo cysylltiedig |
| Atodiad S | Crynodeb o newidiadau i Ddadansoddiad Ansawdd Data IRIS yn dilyn adolygiad 2025 |